**Cofnodion Bwrdd TfW Rail Ltd**

**15/08/2025**

0900 – 1300

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudry, Julian Edwards, Peter Strachan,

**Hefyd yn bresennol**
Nick Millington, Stephen Morgan

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd y paratoadau ar gyfer yr hydref, gan nodi fod mwy a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol a gwendidau yn y seilwaith, gan gyfeirio at ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â risgiau tymhorol newidiol. Bydd cyfarfod teirochrog yn cael ei gynnal; rhwng TrC, AIW a Network Rail i gydlynu ymdrechion, gan gynnwys rheoli llystyfiant ac asesiadau risg i'r rhwydwaith. Trafododd y Bwrdd gyfyngiadau cyflymder mewn argyfwng a digwyddiadau goryrru, gan nodi adolygiad o ddulliau cyfathrebu gyrwyr a'r technolegau sydd ar gael i atal goryrru. Trafododd y Bwrdd ddefnyddio tîm gwrthsefyll tywydd Network Rail ac integreiddio arbenigedd meteorolegol [Cam gweithredu – NM i gyflwyno trosolwg o'r risg i'r rhwydwaith a rhannu data dwysedd glawiad.]

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Trafododd y Bwrdd berfformiad a chyfeiriad strategol y system Talu wrth Fynd (*Pay As You Go*), gan nodi'r elw presennol a'r posibilrwydd y bydd hyn yn gwanhau wrth i'r defnydd o PAYG gynyddu. Nodwyd namau ar y peiriannau dilysu a rhwystredigaethau wrth y gât, [redacted]

[redacted]. Nododd y Bwrdd fod hyrwyddo prisiau tocynnau £1 yn rhoi hwb i draffig, ond mae angen dadansoddi ymhellach yr effaith ar elw a'r rheini sy'n osgoi talu am docynnau. Trafodwyd mwy o bresenoldeb gan arolygwyr diogelu refeniw, gwell diffiniadau o barthau, ac integreiddio gyda'r system masnachfreinio bysiau.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 18 Gorffennaf 2025, yn amodol ar y gwelliannau.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau a thrafodwyd y canlynol

- Tarfu ar berfformiad a ffactorau gyrru, gan gynnwys dibynadwyedd Mk 4, digwyddiad tresmasu yn Heol y Frenhines Caerdydd gan achosi 11% o'r achosion o ganslo gwasanaethau, ochr yn ochr â dwy broblem gyda'r signalau yn yr orsaf (mae archwiliad cynhwysfawr yn cael ei gynnal i ddeall beth achosodd y nam).
- Y seilwaith sefydlog a pherfformiad Network Rail, gan nodi materion signalu allweddol yng Nghasnewydd gyda Hitachi yn gweithio ochr yn ochr â NR i ddatrys problemau
- [redacted]
- Argaeledd y fflyd, gan nodi bod y dosbarthiad adeg digwyddiad mawr diweddar wedi arwain at fethu â dychwelyd y cerbydau i'r depos cywir gan olygu y bu'n rhaid canslo gwasanaethau. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn adolygu'r trefniadau i ddatblygu cynlluniau gwell ar gyfer argaeledd y fflyd y diwrnod canlynol er mwyn lleihau nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo
- Cynlluniau i ymestyn oes Mk 4, AC i asesu ymarferoldeb caffael unedau ychwanegol i gefnogi capasiti a dibynadwyedd gwasanaethau [Cam Gweithredu – AC i ddarparu dogfen un dudalen ar ymestyn oes Mk 4, gwelliannau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol]
- Camerâu corff. Nodir bod yr offer wedi cael ei ddosbarthu'n dda, gydag arferion caffael cryf a mewnbwn gan y tîm diogelwch ar y fanyleb. Nodir bod y defnydd o gamerâu corff wedi cynyddu o ganlyniad i'r camau a gymerwyd.
- [redacted]

**5.1 Adroddiad Strategol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (gan gynnwys gwydnwch seilwaith)**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad strategol ar ddangosyddion perfformiad allweddol

**6. Adroddiad Iechyd a Diogelwch Strategol**

Adolygodd y Bwrdd y perfformiad diogelwch, gan nodi dau SPAD yng nghyfnod pedwar, a gwelliant o'r un cyfnod y llynedd. Mae materion TPWS yn cael eu hymchwilio, gan ganolbwyntio ar signalau o ran polisi gyrru. Mae un digwyddiad goryrru yn cael ei adolygu. Cafodd y mater hwn ei gyfeirio gan y gyrrwr ei hun. Gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y digwyddiadau staff yng nghyfnod pedwar. Nodwyd y mân anafiadau a gofnodwyd. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â theithwyr, gan gynnwys ymosodiadau ar staff, ar gynnydd. Mae yna well system adrodd a thîm lliniaru yn ei le bellach. Nodwyd prawf cyffuriau positif yn y Barri [redacted]

**7. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Nododd y Bwrdd y Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd.

**8. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Rob Paige a Lewis Brencher y cyfarfod*.

Trafododd y Bwrdd [redacted], gan nodi'r duedd o brynu tocynnau unffordd Advance a'r angen i gystadlu â thocynnau dwyffordd, a nodi'r goblygiadau o ran cynyddu gwerthiant tocynnau dwyffordd. Trafodwyd gwelliannau seilwaith a llai o feddiannu ar fyr rybudd ar y Gororau. Nodwyd y gostyngiadau refeniw tymhorol, yn enwedig ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, gydag awgrymiadau i ailfeddwl patrymau gwasanaeth a chanfyddiadau'r cyhoedd. [redacted]

Adolygodd y Bwrdd y perfformiad a'r rhagolygon refeniw presennol[redacted]

**9. Sesiwn Fasnachol Gyfrinachol**

Aeth y Bwrdd i sesiwn fasnachol gyfrinachol [redacted]

[redacted]

**10. Y Newyddion Diweddaraf am Gyllid**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad cyllid, [redacted]

**11. Papurau i'w Nodi**

Nododd y Bwrdd y Diweddariad Marchnata

**12. Unrhyw Fater Arall**

Hysbyswyd y Bwrdd bod lefelau salwch yn gostwng, er bod achosion hirdymor yn parhau i fod yn uchel. [redacted]. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng MD ac Adnoddau Dynol yn helpu i reoli achosion, [redacted].

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**